# Proffil

## Proffil



Dyfan Jones ydw i a dw i'n byw mewn tŷ semi yn y Drenewydd.

Mae fy mhen-blwydd i ar Ebrill deg.

Mae gen i frawd a chwaer. Mae Siôn, fy mrawd, yn ddeg oed ac mae o'n mynd i'r ysgol gynradd yn y Drenewydd. Mae Sioned, fy chwaer, yn un deg tri oed ac mae hi'n mynd i'r ysgol uwchradd yn y Drenewydd.

Mae gen i gi o'r enw Goliath. Mae o'n bump oed ac mae o'n ddu.



Dw i wrth fy modd yn gwersylla. Weithiau, dw i'n gwersylla yn y goedwig a dw i'n cael llawer o hwyl. Mae'n wych. Dydd Sadwrn, es i i lan y môr i wersylla. Roedd o'n ffantastig.



Fy hoff fwyd i ydy pasta. Mae pasta'n flasus iawn. Fy nghas fwyd i ydy cyri achos dw i ddim yn hoffi bwyd sbeislyd.

Leigh Halfpenny ydy fy arwr i achos mae o'n chwarae rygbi dros Gymru ac mae o'n chwarae'n wych.

| | | | |
|---|---|---|---|
| tŷ semi | semi-detached house | o'r enw | called |
| fy mhen-blwydd | my birthday | gwersylla | to camp, camping |
| fy mrawd | my brother | fy hoff fwyd | my favourite food |
| ysgol gynradd | primary school | fy nghas fwyd | the food I hate |
| fy chwaer | my sister | sbeislyd | spicy |
| ysgol uwchradd | secondary school | arwr | hero |